

CROESO I ARLOESWYR CYMRU

Mae pob cenedl yn cael ei llunio gan bobl
y mae eu straeon yn haeddu cael eu cofio.

Mae Arloeswyr Cymru yn dathlu unigolion y mae eu treftadaeth, eu profiadau a'u cyfraniadau wedi helpu i gyfoethogi cymunedau ledled Cymru. Mae eu teithiau'n ymestyn ar draws cenedlaethau, proffesiynau a chefnidiroedd, ac eto mae pob stori'n adlewyrchu cysylltiad cyffredin â'r genedl hon a'r rhan y maent wedi'i chwarae wrth ei llunio.

Yn y tudalennau hyn byddwch yn cwrdd â phobl y mae eu gwreiddiau'n ymestyn ar draws y Gymanwlad a thu hwnt; unigolion sydd wedi rhagori ym maes chwaraeon, cerddoriaeth, gwasanaeth cyhoeddus, gofal iechyd, addysg, ffydd, busnes, y celfyddydau a bywyd cymunedol. Daeth rhai i Gymru o leoedd eraill, tra cafodd eraill eu geni yma ac maent wedi creu eu llwybrau eu hunain wrth anrhydeddu'r etifeddiaeth a ddaeth o'u blaenau.

Mae'r prosiect hwn yn ymwneud â mwy na chyflawniad. Mae'n ymwneud â hunaniaeth, ymdeimlad o berthyn a'r straeon sy'n rhy aml yn aros heb eu hadrodd. Mae'n cydnabod y cyfraniadau a wnaed gan bobl sydd wedi helpu i adeiladu cymunedau cryfach, agor drysau i genedlaethau'r dyfodol a dangos bod hunaniaeth Gymreig yn cael ei chyfoethogi gan lawer o leisiau, diwylliannau a phrofiadau.

Mae'r straeon hyn yn bersonol, yn bwerus ac yn unigryw Gymreig.
Rydym yn falch o'u rhannu â chi.

Ashley Grant

Arweinydd Prosiect
Arloeswyr Cymru

Ar ran Age Alive

Rhwydwaith BME 50+ Casnewydd a'r Cylch

